# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## EOC(3)-15-10 papur 1
## Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol – Cyllideb Ddrafft 2011/12

### Cefndir

Mae Rheol Sefydlog y Cynulliad 27.1 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidog Cymru osod gerbron y Cynulliad gyllideb ddrafft sy’n nodi faint o adnoddau ac arian parod y mae’r llywodraeth yn cynnig eu defnyddio dros y flwyddyn ariannol ddilynol a symiau dros dro ar gyfer y ddwy flynedd dilynol neu ar gyfer unrhyw gyfnod arall a ystyrir gan y Gweinidog erbyn 7 Hydref fan bellaf ym mhob blwyddyn ariannol.

Dangosir faint o wariant a ddyrennir ar gyfer Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn 2011-12, 2012-13 a 2013-14 yn y gyllideb ddrafft

### Crynodeb o'r Newidiadau i'r Gyllideb

Bydd dyraniad cyllideb refeniw Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wedi gostwng £24.4 miliwn erbyn blwyddyn ariannol 2013-14, o gymharu â sefyllfa gwaelodlin 2010-11. Er bod y MEG yn lleihau 1.7% yn 2011-12, ceir codiad o 0.1% yn 2012-13 a chodiad o 1.1% yn 2013-14.

Bydd y gyllideb gyfalaf erbyn 2013-14 wedi gostwng £18 miliwn o'i gymharu â 2010-11, sy'n lleihad o 34%.

Mae'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer addysg yn cynnwys yr adnoddau angenrheidiol i sicrhau amddiffyniad o 1% i leihad yng ngrant bloc y Cynulliad. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad y Prif Weinidog i warchod y gwariant ar ysgolion er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant Cymru. Mae’r cyllid hwn i wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol wedi cael ei warchod i’r un graddau yn y Grant Cynnal Refeniw i gydnabod y pwysau sylweddol a wynebir gan awdurdodau lleol yn y maes hwn o ran eu cyfrifoldebau.

### Trosolwg o'r Blaenoriaethau Gwariant

Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol sydd a'r prif gyfrifoldeb dros berthynas Llywodraeth y Cynulliad â llywodraeth leol, gan gynnwys y cyfeiriad strategol cyffredinol ynghyd ag amcanion, cyllid, perfformiad a'r gwasanaethau a ddarperir. Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol drwy ein ffocws ar ddatblygu ac adfywio cymunedol, ac i gydweithio â'n partneriaid, gan

gynnwys y trydydd sector, i gefnogi pobl sy'n agored i niwed a lleihau anghydraddoldebau. Mae hyrwyddo cymunedau diogel a chynaliadwy hefyd yn bwysig yn sgil ein cyfrifoldeb dros y Gwasanaeth Tân ac Achub a'n perthynas â'r heddlu, partneriaethau diogelwch cymunedol ac eraill. Yn olaf, rydym yn arwain y gwaith yn Llywodraeth y Cynulliad o ddatblygu'r polisi ar gydraddoldeb a hawliau dynol.

**Cyllid Llywodraeth Leol**

Mae'r elfennau cyfalaf a refeniw ar gyfer llywodraeth leol yn cyfrif am rhyw 97% o'r Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Mae'r gweddill wedi ei ddyrannu i ddiogelwch cymunedol, cefnogi cymunedau, a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Felly, un o'r prif flaenoriaethau yw darparu setliad teg a chyfiawn i lywodraeth leol yn ystod cyfnod o gyfyngiadau ariannol.

Wrth wneud penderfyniadau ynghylch y setliad, rydym wedi rhoi ystyriaeth ofalus iawn i'r gwaith a wnaed ar y cyd rhwng swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel rhan o ymarfer blynyddol yr Is-grŵp Gwariant. Mae hon wedi bod yn broses gydweithredol i geisio ennill dealltwriaeth gyffredin o'r pwysau sy'n wynebu llywodraeth leol, y cyfleoedd sydd i liniaru arnynt, a'r mentrau y mae llywodraeth leol yn ymgymryd â hwy ar hyn o bryd i nodi a sicrhau effeithlonrwydd.

O ganlyniad i hynny mae Llywodraeth y Cynulliad, wrth benderfynu ar y cyllid ar gyfer y Setliad Llywodraeth Leol, wedi ceisio cydnabod y prif feysydd lle mae llywodraeth leol yn wynebu pwysau. Rydym wedi gwarchod yr elfennau hynny o'r cyllid sydd ar gyfer addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r rhain, rhyngddynt, yn cyfrif am dros ddau draean o'r holl Grant Cynnal Refeniw.

Ar gyfer cyfnod cyllideb Llywodraeth y Cynulliad, mae'r elfen addysg yn cynnwys yr adnoddau angenrheidiol i sicrhau amddiffyniad o 1% uwchlaw'r newidiadau i DEL Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i warchod cyllidebau ysgolion er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant Cymru.

Mae'r elfen gofal cymdeithasol yn cynnwys cyllid tebyg i sicrhau amddiffyniad o 1% uwchlaw'r newidiadau i DEL Cymru. Bydd hyn yn gwneud yn siŵr bod gofal cymdeithasol hanfodol yn parhau i fod ar gael yn rhwydd, a bod y rheini sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn cael eu gwarchod rhag crebachiad posibl yn y gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer.

Bydd mwy o fanylion yn cael eu darparu pan fydd yr Adroddiad Dros Dro ar Gyllid Llywodraeth Leol yn cael ei gyhoeddi ar 23 Tachwedd 2010. Bydd hwn yn nodi swm y Grant Cynnal Refeniw y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig ei ddosbarthu i Gynghorau Sir

a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yn 2011-12 a thu hwnt, ynghyd â'r rhesymeg dros y dosbarthiad.

Er nad yw'r cyfrifoldeb polisi dros y gwasanaeth heddlu yng Nghymru wedi ei ddatganoli, mae'r cyllid ar gyfer awdurdodau'r heddlu yn destun trefniant tairochrog rhwng y Swyddfa Gartref, Llywodraeth y Cynulliad a'r sawl sy'n talu'r dreth gyngor. Bydd mwy o fanylion ynghylch faint o Grant Cynnal Refeniw ac Ardrethi Annomestig fydd yn cael eu dosbarthu i awdurdodau'r heddlu yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi ddechrau mis Rhagfyr. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ariannu'r heddlu yn y Prif Grŵp Gwariant yn dal yn ddigyfnewid, wrth aros manylion y setliad heddlu. Serch hynny mae'n debyg o newid rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol.

Mae'r cyllidebau sy'n weddill yn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn cyfrannu at amrywiaeth eang o nodau ac amcanion strategol. Ein nod yn ystod y broses o gynllunio'r gyllideb fu sicrhau bod gennym yr adnoddau angenrheidiol i ddarparu buddsoddiadau ac ymyriadau hirdymor er mwyn cyflawni'r canlyniadau canlynol:

**Mae llai o dlodi yng Nghymru** - drwy amryw o fesurau, gan gynnwys cyflawni'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol, ein gwaith yn annog pobl i hawlio'r budd-daliadau sy'n ddyledus iddynt, a sicrhau polisi teg ac effeithiol ar drethu lleol. Mae mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb ymysg plant a phobl ifanc hefyd yn rhan bwysig o waith yr Adran.

**Mae pobl yn byw mewn cymunedau gwledig a threfol sy'n ddiogel, yn fywiog ac yn gynhwysol** - cyflawni'r Strategaeth Cam-drin Domestig a Thrais yn erbyn Menywod a'r Cynllun Cyflenwi cysylltiedig, gwella cadernid Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru, a bwrw ati â nifer o strategaethau gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â Chynhwysiant Ffoaduriaid, Sipsiwn-Teithwyr a Chydlyniant Cymunedol. Yn ogystal â hyn, rydym yn cefnogi'r trydydd sector yng Nghymru ac rydym wrthi'n ymgynghori ar ddyletswyddau cydraddoldeb penodol ar y sector cyhoeddus yng Nghymru.

**Mae cymunedau yn cael eu hadfywio ledled Cymru** - darparu rhaglenni i ddatblygu cymunedau ledled Cymru, megis Cymunedau yn Gyntaf, a gwneud gwaith adfywio ffisegol drwy'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol a thrwy Drosglwyddo Asedau Cymunedol. Rydym hefyd yn datblygu mentrau cymdeithasol.

**Mae gwasanaethau cyhoeddus yn canolbwyntio ar ddinasyddion, maent yn effeithiol ac yn rhoi gwerth am arian** - gwella perfformiad drwy wreiddio dealltwriaeth newydd a pherthynas newydd â llywodraeth leol, a thrwy weithredu'r rhaglen o Gytundebau Canlyniadau. Rydym hefyd yn bwrw ati â newidiadau i strwythur a

gweithrediad llywodraeth lleol, drwy'r Mesur arfaethedig ynghylch Strwythurau Gwleidyddol Llywodraeth Leol (Cymru) 2010. Yn olaf, rydym yn gyfrifol am sicrhau annibyniaeth o ran materion prisio trethu lleol, a hybu a gwella atebolrwydd ariannol llywodraeth leol.

**Gwaith gan yr Adran i Gefnogi Prif Themâu'r Gyllideb**

Mae blaenoriaethau gwariant yr Adran yn cyd-fynd yn agos ag ymrwymiadau Llywodraeth y Cynulliad yn *Cymru'n Un*, ac maent wedi'u seilio ar feini prawf y gyllideb fel y cytunwyd arnynt gan y Cabinet. O'r herwydd, mae'r ffocws ar warchod gwasanaethau rheng flaen ac, yn benodol, ar y gwasanaethau i'r rheini sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Mae rôl yr Adran o ran Cyfiawnder Cymdeithasol yn ymwneud â dyhead Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau dosbarthiad teg o adnoddau, cyfleoedd a chyfrifoldebau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol ym mhob agwedd ar fywyd cymdeithasol. Y nod yw bod pob unigolyn a grŵp yn cael ei drin yn deg ac yn mwynhau cyfran deg o fanteision cymdeithas. Wrth bennu'r cyllidebau, mae'r Adran wedi ystyried ac asesu effeithiau'r newidiadau ar y sefydliadau y byddant yn effeithio arnynt, ac ar y gwasanaethau a ddarperir. Rydym wedi cydweithio â'n partneriaid yn y trydydd sector, gan gyhoeddi llythyr ar y cyd â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar y broses o bennu cyllideb y Cynulliad a'i goblygiadau i'r trydydd sector. Rydym hefyd wedi asesu effaith debygol gostyngiadau yn y gyllideb o ran cydraddoldeb. Mae'r amddiffyniad a roddir i gyllidebau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol yn ystyried hyn, yn ogystal ag adlewyrchu'n fwy cyffredinol yr angen i gynnal gwasanaethau i'r rheini sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Symptom yw tlodi ac anfantais o ddiffyg cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal. Rydym yn cydnabod mai'r buddsoddiadau a'r ymyriadau hirdymor mwyaf effeithiol, yn ôl pob tebyg, fydd y rheini sy'n mynd y tu hwnt i daclo'r symptomau ac sy'n mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi neu'n cynnal anghyfiawnder ac anghydraddoldeb. Rydym yn cydweithio ag Adrannau eraill Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu ymyriadau mwy effeithiol i wneud hyn. Er enghraifft drwy gymorth mwy cydlynol i deuluoedd a thrwy gymorth i ddatblygu plant yn eu blynyddoedd cynnar. Hefyd, rydym yn ceisio gwella ansawdd bywyd pobl yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru drwy ddatblygu gallu cymunedau, drwy roi grant i ariannu'r gweithlu Cymunedau yn Gyntaf, a thrwy ddefnyddio'r Gronfa Canlyniadau a'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol i gefnogi prosiectau sydd wedi'u blaenoriaethu gan gymunedau. Byddwn yn parhau i helpu'r rheini sydd lleiaf abl i fforddio cael eu hallgáu'n ariannol drwy ein cymorth parhaus i undebau credyd, mentrau cymdeithasol a gwasanaethau cynghori.

Ochr yn ochr â hyn, rydym yn cydnabod bod angen mesurau byrdymor i helpu'r rheini sy’n profi amryw o wahanol fathau o amddifadedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Rydym yn gweithio i amddiffyn grwpiau penodol sydd mewn perygl o gael eu gwthio i'r ymylon neu mewn perygl y bydd eraill yn gwahaniaethu yn eu herbyn, drwy ein dyletswyddau o ran cydraddoldeb a thrwy ein cymorth grant parhaus i bartneriaid yn y trydydd sector. Rydym hefyd yn ymgymryd ag ymyriadau rhagweithiol i gefnogi grwpiau penodol fel Sipsiwn-Teithwyr ac rydym yn cydweithio â'n partneriaid er mwyn helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ein cymunedau. Yn olaf, ein bwriad yw parhau â'n gwaith i fynd i'r afael â cham-drin domestig a bwrw ati â’r agenda ehangach ar drais yn erbyn menywod. Bydd y cyllidebau ar gyfer y maes hwn yn y dyfodol wedi'u gwarchod rhag gostyngiadau.

**Rhaglenni Cyflenwi Allweddol**

Y rhaglenni cyflenwi allweddol yw'r rheini sy'n cael effaith uniongyrchol ar ddiogelu a chefnogi pobl agored i niwed, sy’n mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol a lleihau anghydraddoldebau, ac sy’n hybu cymunedau diogel a chynaliadwy. Mae'r prif feysydd ar gyfer gwariant yn 2011-12 wedi'u nodi isod.

**Cefnogi Cymunedau a Phobl** - Rydym wedi cadw'r gyllideb Cymunedau yn Gyntaf ar yr un lefel ar gyfer 2011-12 (£45.1 miliwn), wrth inni benderfynu ar gyfeiriad rhaglen at y dyfodol. Rhaid i'n cyllidebau eraill fel y Trydydd Sector (£8.9 miliwn), Mentrau Cymdeithasol (£1.9 miliwn) a Chynhwysiant Ariannol (£1.7 miliwn) oll sicrhau arbedion. Serch hynny gellir gwireddu’r arbedion hynny heb effeithio ar wasanaethau rheng flaen, a byddwn yn parhau i ddenu arian ychwanegol o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, lle mae hynny'n bosibl, drwy ddarparu arian cyfatebol ar gyfer prosiectau arloesol.

**Cymunedau Mwy Diogel** - Mae'r gyllideb Cam-drin Domestig wedi'i gwarchod rhag unrhyw ostyngiadau (£3.7 miliwn), sy'n dangos ein hymrwymiad i *‘Yr Hawl i fod yn Ddiogel’*, sef ein strategaeth integredig chwe mlynedd ar gyfer mynd i'r afael â phob un math o drais yn erbyn menywod. Wrth asesu’r effaith bosibl ar gydraddoldeb, rydym hefyd wedi cynnal y cyllid ar gyfer gwaith ar gydlyniant cymunedol/y berthynas rhwng cymunedau.

**Polisi Llywodraeth Leol** - Mae'r ddarpariaeth ar gyfer grantiau Cytundebau Canlyniadau yn parhau ar lefel 2010-11 (£31.1 miliwn). Mae Cytundebau Canlyniadau rhwng Llywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol unigol yn egluro sut y bydd y naill a'r llall yn gweithio tuag at wella canlyniadau i bobl leol, yng nghyd-destun blaenoriaethau cenedlaethol y Llywodraeth.

**Trethiant Llywodraeth Leol** - Y disgwyl yw y bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio a'r Tribiwnlysoedd Prisio ill dau yn sicrhau arbedion yn unol â'r gostyngiadau yn y Prif Grŵp Gwariant. Yn ogystal â hyn, rydym yn ystyried opsiynau ar gyfer dwyn nifer o Gynlluniau Budd-daliadau at ei gilydd tra'n sicrhau na fydd effaith anghymesur o ran oedran neu anabledd.

**Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** - Bydd y cyllid yn y maes pwysig hwn yn parhau i gael ei sianelu tuag at brosiectau a reolir yn bennaf gan sefydliadau cymunedol bychain a sefydliadau bychain yn y trydydd sector.

**Cyllidebau Cyfalaf** - O ystyried y rôl bwysig sydd gan lywodraeth leol yn ariannu a chyflawni rhaglenni cyfalaf, rydym wedi penderfynu gwarchod y llinell Cyllid Cyfalaf Cyffredinol (£20 miliwn), sy'n darparu grant cyfalaf i awdurdodau lleol. Er mwyn sicrhau cydbwysedd yn y gyllideb cyfalaf, mae'r arbedion sy'n dod o feysydd eraill. Mae'r rhain yn cynnwys Cymunedau Mwy Diogel, lle rydym yn gallu parhau i ariannu gwaith ar gadernid ac effeithiolrwydd gweithredol y Gwasanaeth Tân ac Achub, tra'n lleihau'r gyllideb cyfalaf. Mae'r cyllidebau Datblygu Cymunedol hefyd yn cael eu lleihau, er y bydd y gwaith adfywio ffisegol drwy gyfrwng y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol a thrwy Drosglwyddo Asedau Cymunedol yn parhau i gael digon o gyllid.

**Carl Sargeant AC**
**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**

**Atodiad 1**

**Asesu Penderfyniadau Cyllidebol ar gyfer Effeithiau ar Gydraddoldeb**

Yn Llywodraeth Cynulliad Cymru aseswn ein penderfyniadau cyllidebol ar gyfer effeithiau ar gydraddoldeb drwy'r broses Llunio Polisïau mewn Modd Cynhwysol (IPM).

Defnyddiodd Adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau IPM i'w helpu i gael gafael ar yr holl ddeunydd perthnasol wrth lunio eu hasesiadau a rhoi cyngor i Weinidogion ar eu penderfyniadau.

http://wales.gov.uk/topics/equality/publications/ipmguide2/?skip=1&lang=cy

Hefyd, rhoddwyd cyngor a chanllawiau i Adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar bwysigrwydd asesu penderfyniadau cyllidebol ar gyfer effeithiau ar gydraddoldeb a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC).

**Canllawiau EHRC**
http://www.equalityhumanrights.com/search-results/index.html?q=psd+and+financial+decisions

Mae Llunio Polisïau mewn Modd Cynhwysol yn ystyried yn llawn gyngor EHRC ac yn adeiladu arno:

- Y Cynllun Cydraddoldeb Sengl a'n hymrwymiadau allstatudol

Yn ei Chynllun Cydraddoldeb Sengl, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i, "lle bynnag y bo'n bosibl", weithredu fel pe bai'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol statudol y mae'n ddarostyngedig iddynt o ran hil, rhyw ac anabledd, hefyd yn berthnasol o ran oedran, crefydd a chred neu ddiffyg cred, tueddfryd rhywiol ac ailbennu rhywedd.

Bydd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol statudol o ran yr holl feysydd cydraddoldeb hyn pan ddaw darpariaethau perthnasol y Ddeddf i rym.

Mae Llunio Polisïau mewn Modd Cynhwysol, fersiwn Llywodraeth Cynulliad Cymru o Asesu Effaith ar Gydraddoldeb, wrth wraidd helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i gydymffurfio â'i dyletswyddau statudol a'r ymrwymiadau estynedig a wnaeth yn ei Chynllun Cydraddoldeb Sengl. Gall Asesu Effaith ar Gydraddoldeb brofi p'un a gaiff penderfyniad effaith wahanol ar grwpiau gwahanol o bobl ar sail hil,

rhyw, anabledd, oedran, crefydd a chred a diffyg cred, tueddfryd rhywiol ac ailbennu rhywedd.

Mae Canllawiau ar Lunio Polisïau mewn Modd Cynhwysol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys canllawiau manwl ar y broses Asesu Effaith ar Gydraddoldeb.

- Adran 77 Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud trefniadau priodol â'r nod o sicrhau y cyflawnir eu swyddogaethau gan roi sylw dyledus i'r egwyddor o sicrhau cyfle cyfartal i *bawb*.

Mae'r Canllawiau ar Lunio Polisïau mewn Modd Cynhwysol yn cynnwys elfennau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ystyried p'un a allai polisi neu arfer gael effaith anghymesur ar y gymuned ehangach.

- Ystyr "ystyriaeth ddyledus" yng nghyd-destun dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol

Ystyrir mai'r egwyddorion cyffredinol sy'n sail i gael "sylw dyledus" yng nghyd-destun dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol yw:

1. Ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o beth yw'r dyletswyddau hyn.
2. Gofyniad i roi sylw ddyledus cyn y broses llunio polisi a gwneud penderfyniadau ac yn ystod y broses honno - ystyriaeth weithredol sy'n pwyso a mesur yr holl ffactorau perthnasol a rhoi'r sylw priodol iddynt yn yr holl amgylchiadau.
3. Rhaid i'r ddyletswydd gael ei harfer o ddifrif, yn drylwyr a gyda meddwl agored. Ni ddylai gael ei derbyn yn ddigwestiwn a bod yn ymwybodol ohoni yn gyffredinol yn unig.
4. Mae'n arfer da cyfeirio at y ddyletswydd wrth wneud y penderfyniad.
5. Mae'n ddyletswydd na ellir ei dirprwyo yn yr ystyr bod Gweinidogion Cymru yn parhau'n gyfrifol am gydymffurfio â hi yn gyfreithiol, hyd yn oed pan fydd rhywun yn cyflawni swyddogaeth ar eu rhan.
6. Mae'r ddyletswydd yn un barhaus.
7. Dylid cadw cofnodion yn briodol er budd tryloywder.

### Cyngor a chymorth pellach

Mae arweinwyr cydraddoldeb a thimau cydraddoldeb ym mhob Adran yn gyfarwydd â chynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb, ac yn gallu cefnogi staff adrannol i wneud hynny, drwy ddefnyddio'r canllawiau Llunio Polisïau mewn Modd Cynhwysol.

Rhoddwyd mwy o gymorth a chyngor manwl i'r timau cydraddoldeb adrannol gan y tîm Llunio Polisïau mewn Modd Cynhwysol, yn Is-adran

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

**Carl Sargeant AC**
**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**